# CYNGOR

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 6 Mawrth 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Furlow-Harris, C.Griffiths, N.Headon, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, N.Pearce, S.Phillips a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Freeguard | Parthed Cyllideb Refeniw 2020/2021 gan ei bod hi'n aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Llewelyn | Parthed Cyllideb Refeniw 2020/2021 gan ei fod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Y Cynghorydd A N Woolcock | Parthed Cyllideb Refeniw 2020/2021 gan ei fod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Y Cynghorydd C M Crowley | Parthed Cyllideb Refeniw 2020/2021 gan ei fod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |

## 2. **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2020/21 I 2022/23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet perthnasol lle nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo i'r cyngor, gan y Cabinet ar 5 Mawrth 2020.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/2021 i 2022/2023 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac y byddai'r rhaglen yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n barhaus dros y flwyddyn i ddod.

## 3. **CYLLIDEB REFENIW 2020/21**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet yr adroddiad uchod. Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn isel, tynnwyd sylw at y ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau a oedd gerbron yr Aelodau heddiw a gofynnwyd i'r cyngor gefnogi'r argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad.

Diolchodd yr Aelodau i swyddogion a'r Cabinet am y gwaith a wnaed i gyflawni sefyllfa'r gyllideb ac am lobïo Llywodraeth Cymru a arweiniodd at ffigur setliad gwell.

Croesawyd hyn, fodd bynnag, cytunwyd bod angen rhagor o arian ychwanegol ar Gymru o hyd er mwyn gallu cynnal a gwella gwasanaethau.

Yn ogystal, roedd yr Aelodau'n falch y gweithredwyd ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan y cyhoedd a phwyllgorau craffu perthnasol mewn perthynas â Chanolfan Celfyddydau Pontardawe, cyllid Hamdden Celtaidd, y fformiwla ariannu ysgolion a diffygion glanhau ysgolion, a bod argymhellion wedi'u newid o ganlyniad.

Mynegodd rhai Aelodau bryder y byddai'r cynnydd arfaethedig o 3.7% yn Nhreth y Cyngor yn cael effaith negyddol ar deuluoedd sydd eisoes ar incwm isel ac y byddai'n arwain at gymunedau sydd eisoes wedi'u nodi fel ardaloedd o amddifadedd uchel, yn mynd yn fwy difreintiedig. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r treth y cyngor trydydd uchaf yng Nghymru o hyd.

Cafwyd trafodaeth ar y ddau gynnig a gyflwynwyd sef y dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn i alluogi gostyngiad o naill ai 3.5% neu 3% yn y cynnydd yn Nhreth y Cyngor er mwyn lliniaru'r effaith ar deuluoedd a chymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor gan ddweud y byddai defnyddio cronfeydd wrth gefn y cyngor, fel yr awgrymwyd gan rai Aelodau, yn golygu na fyddai'r Cyngor yn gallu ariannu materion brys. Yn 2019/20 darparodd y cronfeydd wrth gefn gyllid brys i gynorthwyo â phedwar tirlithriad yn Ystalyfera a llifogydd a ddifrododd ffyrdd a phontydd pwysig. Roedd yn rhaid i'r cyngor sicrhau bod cronfeydd wrth gefn ar gael i barhau i gefnogi argyfyngau anghynlluniedig. Ni fyddai effaith lleihau Treth y Cyngor i naill ai 3% neu 3.5% yn cael fawr o effaith ar dalwyr Treth y Cyngor ond byddai'n effeithio ar allu'r cyngor i ymateb i argyfyngau anghynlluniedig.

Rhoddwyd y gwelliant cyntaf i'r cyngor fel a ganlyn:

Bydd yr hyn sy'n cyfateb i Fand D 2020/21 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port yn £1,603.30 a bydd cynnydd o 3% yn Nhreth y Cyngor o'i gyferbynnu â chynnydd o 3.79% fel y nodir yn yr adroddiad, gyda'r bwlch o 0.79% yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol (sy'n cynrychioli swm ychwanegol o £592,000 ar gyfer 2020/2021). Felly, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb yw £2.242m h.y. £1.65m a £0.592m.

Methodd y gwelliant uchod, yna dilynodd yr ail welliant a gyflwynwyd i'r Cyngor, sef:

Bydd y swm cyfatebol ar gyfer Band D 2020/21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn £1,611.07 a bydd cynnydd o 3.5% yn

Nhreth y Cyngor o'i gyferbynnu â chynnydd o 3.79% fel y nodir yn yr adroddiad gyda'r bwlch o 0.29% yn cael ei ariannu o'r gronfa gyffredinol wrth gefn (sy'n cynrychioli swm ychwanegol o £217,000 ar gyfer 2020/2021). Felly, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb yw £1.867m h.y. £1.65m a £0.217m.

Methodd y gwelliant uchod, ac o ganlyniad, ystyriwyd y prif argymhelliad a gafwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD:** | Gan roi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig fel y'i cynhwysir yn Atodiad 7 i'r adroddiad a ddosbarthwyd:<br><br>1. Y caiff y materion canlynol eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol:-<br>• Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21<br>• Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.<br><br>2. Y dylid cymeradwyo'r sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig a'r trefniadau ar gyfer 2019/20.<br><br>3. Ar ôl ystyried effeithiau'r Asesiad Effaith Integredig a Throseddu ac Anhrefn, caiff gofyniad net y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21, a'r cynlluniau gwasanaeth ar gyfer cyflwyno'r cyllidebau, y dylid cymeradwyo'r rha ynghyd ag arbedion y gyllideb/blaengynllun ariannol, fel y'u cynhwysir yn Atodiad 4 i'r |

| | |
|---|---|
| | adroddiad a ddosbarthwyd.<br><br>4. Y bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cael eu cyfarwyddo i fwrw ymlaen â'r arbedion a'r rhaglen wella ar gyfer yr awdurdod.<br><br>5. Dirprwyo ffïoedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau anweithredol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd y Pwyllgor Anweithredol perthnasol<br><br>• Ffioedd a thaliadau sy'n gymwys yn 2020/21<br>• Ffïoedd a thaliadau sy'n gymwys ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.<br><br>6. Mai'r swm cyfatebol ar gyfer Band D 2020/21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fydd £1,611.07 |

4. **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW 2020/21**

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD** | Y bydd y Strategaethau a'r Polisïau canlynol fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cael eu cymeradwyo<br><br>• Strategaeth Rheoli'r Trysorlys<br>• Strategaeth Buddsoddi Flynyddol<br>• Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw<br>• Dangosyddion Darbodus |

5. **TRETH Y CYNGOR 2020/21**

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD** | 1. Y bydd unrhyw dreuliau a ysgwyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wrth berfformio, yn rhan o'i ardal, swyddogaeth a gyflawnir gan Gyngor Cymuned, mewn man arall yn ei ardal, yn cael eu trin fel treuliau cyffredinol yr awdurdod.<br><br>2. Bod ardoll Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe yn cael ei thrin fel cost gyffredinol.<br><br>3. Bod y symiau canlynol yn cael eu cyfrifo'n unol ag Adran 32 i 36 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. |

| | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm yr eitemau a amcangyfrifwyd o dan Adran 32 (2) - gwariant | £447,240,825 |
| Cyfanswm yr eitemau a amcangyfrifwyd o dan adran 32 (3) - incwm | £140,892,410 |
| Swm a gyfrifwyd yn unol ag adran 32(4) – gofyniad cyllidebol | £306,348,415 |
| Y cyfanswm sy'n daladwy mewn perthynas â'r Ardreth Annomestig Genedlaethol a'r Grant Cynnal Refeniw a ailddosbarthwyd, yn cael ei leihau'n unol ag Adran 33 (3B) o'r Ddeddf. | £226,374,905 |
| Swm sylfaenol Treth y Cyngor yn unol ag Adran 34 (1) o'r Ddeddf. | £1,662.72 |
| Cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn adran 34(1) o'r Ddeddf. | £2,266,798 |
| Swm sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn ymwneud â nhw, yn unol ag Adran 34 (2) o'r Ddeddf. | £1,615.59 |
| Symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae bandiau eitemau arbennig yn ymwneud â hwy, a gyfrifir yn unol ag adran 34(3) o'r Ddeddf. | Yn unol ag Atodiad 1 |
| Symiau i'w hystyried mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn prisiad gwahanol, a gyfrifir yn unol ag Adran 36(1) o'r | Yn unol ag Atodiad 2 |

Ddeddf.

4. Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi datgan y symiau canlynol mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf.

| | |
|---|---|
| Band A | £181.81 |
| Band B | £212.11 |
| Band C | £242.41 |
| Band D | £272.72 |
| Band E | £333.32 |
| Band F | £393.92 |
| Band G | £454.53 |
| Band H | £545.43 |
| Band I | £636.34 |

Cyfanswm y praesept sy'n daladwy yw £13,117,062.

5. Ar ôl cyfrifo'r cyfansymiau ym mhob achos uchod, mae'r cyngor, yn unol ag adran 30(2) o'r Ddeddf drwy hyn yn pennu'r symiau a ddangosir yn Atodiad 3 fel Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir.

**CHAIRPERSON**

.

Basic Amount of Council Tax (Band D) Appendix 1

| Community Council Precept | Town or Community Council | Community Council Precept | Council Tax Base (band D) | Community Council Tax | NPTCBC Council Tax | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2019/20** | | **2020/21** | **2020/21** | **2020/21** | **2020/21** | **2020/21** |
| £36,530.00 | Blaengwrach | £38,721.00 | 371.78 | **£104.15** | £1,615.59 | **£1,719.74** |
| £220,143.00 | Blaenhonddan | £230,000.00 | 4,591.25 | **£50.10** | £1,615.59 | **£1,665.69** |
| £147,800.00 | Briton Ferry | £152,400.00 | 1,877.11 | **£81.19** | £1,615.59 | **£1,696.78** |
| £99,000.00 | Cilybebyll | £100,000.00 | 1,953.37 | **£51.19** | £1,615.59 | **£1,666.78** |
| £21,321.00 | Clyne and Melincourt | £22,333.75 | 261.36 | **£85.45** | £1,615.59 | **£1,701.04** |
| £379,681.00 | Coedffranc | £398,709.00 | 3,620.28 | **£110.13** | £1,615.59 | **£1,725.72** |
| £48,126.00 | Crynant | £50,550.00 | 676.79 | **£74.69** | £1,615.59 | **£1,690.28** |
| £39,000.00 | Cwmllynfell | £40,000.00 | 387.41 | **£103.25** | £1,615.59 | **£1,718.84** |
| £48,913.00 | Dyffryn Clydach | £49,891.00 | 1,101.14 | **£45.31** | £1,615.59 | **£1,660.90** |
| £148,223.29 | Glynneath | £236,060.00 | 1,381.55 | **£170.87** | £1,615.59 | **£1,786.46** |
| £83,590.00 | Gwauncaegurwen | £85,983.00 | 1,339.52 | **£64.19** | £1,615.59 | **£1,679.78** |
| £330,000.00 | Neath | £400,000.00 | 6,515.01 | **£61.40** | £1,615.59 | **£1,676.99** |
| £22,746.00 | Onllwyn | £23,883.00 | 374.93 | **£63.70** | £1,615.59 | **£1,679.29** |
| £38,765.00 | Pelenna | £39,961.00 | 403.79 | **£98.96** | £1,615.59 | **£1,714.55** |
| £183,000.00 | Pontardawe | £183,000.00 | 2,532.78 | **£72.25** | £1,615.59 | **£1,687.84** |
| £52,138.00 | Resolven | £54,933.00 | 734.88 | **£74.75** | £1,615.59 | **£1,690.34** |
| £48,650.00 | Seven Sisters | £49,623.00 | 634.91 | **£78.16** | £1,615.59 | **£1,693.75** |
| £29,000.00 | Tonna | £38,000.00 | 955.85 | **£39.76** | £1,615.59 | **£1,655.35** |
| £67,750.00 | Ystalyfera | £72,750.00 | 1,599.88 | **£45.47** | £1,615.59 | **£1,661.06** |
| **£2,044,376.29** | **Total** | **£2,266,797.75** | **31,313.59** | | | |

Tudalen10

Appendix 2

## Amount of Council Tax - NPT plus Community Council

| Community | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| Blaengwrach | 1,146.49 | 1,337.58 | 1,528.66 | 1,719.74 | 2,101.90 | 2,484.07 | 2,866.23 | 3,439.48 | 4,012.73 |
| Blaenhonddan | 1,110.46 | 1,295.54 | 1,480.61 | 1,665.69 | 2,035.84 | 2,406.00 | 2,776.15 | 3,331.38 | 3,886.61 |
| Briton Ferry | 1,131.19 | 1,319.72 | 1,508.25 | 1,696.78 | 2,073.84 | 2,450.90 | 2,827.97 | 3,393.56 | 3,959.15 |
| Cilybebyll | 1,111.19 | 1,296.38 | 1,481.58 | 1,666.78 | 2,037.18 | 2,407.57 | 2,777.97 | 3,333.56 | 3,889.15 |
| Clyne and Melincourt | 1,134.03 | 1,323.03 | 1,512.04 | 1,701.04 | 2,079.05 | 2,457.06 | 2,835.07 | 3,402.08 | 3,969.09 |
| Coedffranc | 1,150.48 | 1,342.23 | 1,533.97 | 1,725.72 | 2,109.21 | 2,492.71 | 2,876.20 | 3,451.44 | 4,026.68 |
| Crynant | 1,126.85 | 1,314.66 | 1,502.47 | 1,690.28 | 2,065.90 | 2,441.52 | 2,817.13 | 3,380.56 | 3,943.99 |
| Cwmllynfell | 1,145.89 | 1,336.88 | 1,527.86 | 1,718.84 | 2,100.80 | 2,482.77 | 2,864.73 | 3,437.68 | 4,010.63 |
| Dyffryn Clydach | 1,107.27 | 1,291.81 | 1,476.36 | 1,660.90 | 2,029.99 | 2,399.08 | 2,768.17 | 3,321.80 | 3,875.43 |
| Glynneath | 1,190.97 | 1,389.47 | 1,587.96 | 1,786.46 | 2,183.45 | 2,580.44 | 2,977.43 | 3,572.92 | 4,168.41 |
| Gwauncaegurwen | 1,119.85 | 1,306.50 | 1,493.14 | 1,679.78 | 2,053.06 | 2,426.35 | 2,799.63 | 3,359.56 | 3,919.49 |
| Neath | 1,117.99 | 1,304.33 | 1,490.66 | 1,676.99 | 2,049.65 | 2,422.32 | 2,794.98 | 3,353.98 | 3,912.98 |
| Onllwyn | 1,117.99 | 1,304.33 | 1,490.66 | 1,676.99 | 2,049.65 | 2,422.32 | 2,794.98 | 3,353.98 | 3,912.98 |
| Pelenna | 1,119.53 | 1,306.11 | 1,492.70 | 1,679.29 | 2,052.47 | 2,425.64 | 2,798.82 | 3,358.58 | 3,918.34 |
| Pontardawe | 1,143.03 | 1,333.54 | 1,524.04 | 1,714.55 | 2,095.56 | 2,476.57 | 2,857.58 | 3,429.10 | 4,000.62 |
| Resolven | 1,125.23 | 1,312.76 | 1,500.30 | 1,687.84 | 2,062.92 | 2,437.99 | 2,813.07 | 3,375.68 | 3,938.29 |
| Seven Sisters | 1,126.89 | 1,314.71 | 1,502.52 | 1,690.34 | 2,065.97 | 2,441.60 | 2,817.23 | 3,380.68 | 3,944.13 |
| Tonna | 1,129.17 | 1,317.36 | 1,505.56 | 1,693.75 | 2,070.14 | 2,446.53 | 2,822.92 | 3,387.50 | 3,952.08 |
| Ystalyfera | 1,103.57 | 1,287.49 | 1,471.42 | 1,655.35 | 2,023.21 | 2,391.06 | 2,758.92 | 3,310.70 | 3,862.48 |
| Blaengwrach | 1,107.37 | 1,291.94 | 1,476.50 | 1,661.06 | 2,030.18 | 2,399.31 | 2,768.43 | 3,322.12 | 3,875.81 |
| All Other | 1,077.06 | 1,256.57 | 1,436.08 | 1,615.59 | 1,974.61 | 2,333.63 | 2,692.65 | 3,231.18 | 3,769.71 |